

❖ DEWIS ANRHEGION

Mae dewis anrhegion Nadolig yn gallu bod yn her! Rydych chi am i'r anrheg fod yn addas, yn anrheg sy'n siwtio'r derbynydd, yn anrheg y byddai wrth ei fodd yn ei dderbyn.

Dewisodd Duw anrheg addas ar ein cyfer ar y Nadolig cyntaf hwnnw, anrheg i ddiwallu'n hangen dyfnaf. Fel y dywedodd John Hughes:

Draw yn nhawelwch Bethlem dref
daeth baban bach yn Geidwad byd...

Beth yw gwaith Ceidwad? Cofiw'n am Geidwad y carchar yn Philipi a'i gyfrifoldeb i gadw troseddwy'r drwg dan glo. Mae Iesu Grist yn Geidwad o fath gwahanol. Nid yw Iesu am gadw neb yn garcharor ond mae ef am ein cadw ni rhag y Drwg. Onid yw Iesu wedi ein cyfarwyddo i weddio, 'Gwared ni rhag yr Un Drwg' ac onid yw am ein helpu ni i ddangos cariad a daioni yn y byd? Mae Iesu hefyd am ein cadw ni o gosb pechod – ein cadw rhag canlyniadau ofnadwy ein gwrthryfel yn erbyn Duw. Daeth Iesu i'n hachub drwy farw dros ein pechodau ar y groes. Roedd marwolaeth Iesu yn rhan hanfodol o gynllun a ragordeiniwyd gan Dduw. 'Yr oedd Duw wedi ei ddewis cyn seilio'r byd' (1 Pedr 1:20) i gyflawni gweinidogaeth arbennig drosom. Cyflwynodd ei fywyd glân a sanctaidd yn iawn dros ein pechodau. Dywed y Beibl, 'Rhoes yr ARGWLWYDD arno ef ein beiau ni i gyd' (Eseia 53:6).

Talu Dyled

Gadewch i ni ddychmygu ein bod ni dri mis ar ei hôl hi gyda thalu'r morgais. Rydym ar fin colli'n cartref ac yr ydym yn gwbl ddiymadferth i wneud dim ynglŷn â hynny. Allan ar yr heol fyddwn ni. Mae'n cyfrif banc ni'n wag ond yn sydyn mae rheolwr y banc yn cysylltu â ni gan ddweud, 'Mae gen i newyddion godidog i chi. Mae gyda chi berthynas cyfoethog sydd nid yn unig wedi talu'r morgais am y tri mis sy'n ddyledus ond mae hefyd wedi talu'r benthyciad yn llawn. Dyma'r gweithredoedd. Mae'r tŷ yn awr yn eiddo i chi.' Rydym ni'n cael ein llenwi â diolchgarwch ac mae'r fath rodd hael yn peri i ni orfoleddu. Mae gyda ni i gyd ddyled na allwn ni ei thalu. Ein pechod yw achos y ddyled ac nid oes gobaith gyda ni i dalu iawn i Dduw am ein gwrthryfel yn erbyn ei ewyllys. Ond daeth Iesu a thalu'r ddyled yn llawn drosom ni a'n cymodi â Duw. 'Ni wybu Crist beth oedd pechu, ond gwnaeth Duw ef yn un â phechod drosom ni' (2 Corinthiaid 5:21).

Derbyn neu wrthod

Mae angen Gwaredwr arnom i'n codi ni o afael caethiwed pechod a'n cymodi â Duw. Iesu yw ein Gwaredwr a'n Hachubydd – rhodd fwyaf Duw i ni ac anrheg cwbl addas ar ein cyfer ni.

Mae'n rhaid i ni dderbyn neu wrthod pob anrheg. Mae'r un peth yn wir am Iesu Grist, anrheg Duw. Gwrthododd Herod yr anrheg hon, a cheisio erlid y baban Iesu, ond derbyniodd y bugeiliaid y gwahoddiad i fynd i Fethlehem. Credodd y bugeiliaid neges yr angel, 'Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd... Aethant ar frys...' (Luc 2:11,16).

Ni fu bywyd yn union yr un fath iddynt wedyn. Llanwyd hwy â llawenydd. Wedi gweld y baban aethant yn ôl i'r brynau 'gan ogoeddu a moli Duw' (Luc 2:20). Deallodd y sêr-ddewiniaid fod Brenin yn dod i'r byd, ac fe deithiasant yn bell i blygu wrth ei draed.

Ceidwad yw Iesu Grist

Fel y dywedodd Morgan Rhys yn ei emyn:

Dyma Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;
dyma un sy'n caru maddau
i bechaduriaid mawr eu bai;
diolch iddo
byth am gofio llwch y llawr.

Os ydych chi wedi derbyn anrheg Duw rwyf fi am i chi wneud rhywbeth syml iawn. Clymwch ruban

coch o gylch oren a gosodwch gannwyll ar ben yr oren.

Mae'r oren yn cynrychioli BYD Duw.

Mae'r rhuban coch yn cynrychioli'r CARIAD a welsom ar Galfaria.

Mae golau'r gannwyll yn cynrychioli Goleuni'r Efengyl – y goleuni a ddaeth i ni trwy Iesu Grist y Baban yn y Preseb.

Gosodwch hwn ar y bwrdd cinio ar ddydd Nadolig gan gynnau'r gannwyll yn dystiolaeth eich bod yn derbyn Iesu Grist – anrheg Duw i bob un ohonom.

Mae'n draddodiad hefyd gydag addurn fel hwn i osod danteithion ar ddarnau o bren a'u glynu wrth yr oren. Mae'r danteithion yn ein hatgoffa o gynnyrch y ddaear. Bydd brodyr a chwiorydd i ni yn brin o fara beunyddiol dros y Nadolig ac onid ein braint yw rhannu â hwy o'r bendithion rif y gwllith yr ydym ni yn eu mwynhau? Gellir gwneud hyn drwy Gymorth Cristnogol. Ewch i wefan Present Aid Cymorth Cristnogol ac fe gewch gyfarwyddyd ar sut i brynu pethau fel cwch gwenyn i deulu tlawd yn Bolivia am £10 neu yrr o eifr i deulu tlawd ym Murundi am £60. Mae digon o opsiynau gwahanol i gyflwyno rhoddion defnyddiol i deuluoedd tlawd yn y byd.

Andrew Lenny